# Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# Ymateb i'ch galwad:
# Gweinidogaeth Ordeiniedig

Duw, dan arweiniad yr Ysbryd Glân, sy'n galw pobl i gyflawni gweinidogaeth, ac i'r rhai sy'n teimlo galwad i gyflawni gweinidogaeth ordeiniedig, cânt eu hordeinio:

- i bregethu a dysgu Gair Duw,
- i weinyddu ordinhadau Bedydd a Swper yr Arglwydd, i arwain gweddïau ac addoliad yr eglwys,
- i fugeilio'r praidd, a'u cadarnhau yn y ffydd,
- i adeiladu'r eglwys mewn cariad a chadw undod yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd.

## Cychwyn y daith

Bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno bod yn ymgeisydd am y weinidogaeth ordeiniedig ddilyn y broses hon o gymeradwyaeth:

1. **Y cam cyntaf:** Y cam cyntaf yw hysbysu'r eglwys y mae'r ymgeisydd yn aelod ohoni eu bod yn teimlo arweiniad i gyflwyno eu hunain fel pregethwr cydnabyddedig. Gellir gwneud hyn drwy siarad â gweinidog neu un o swyddogion neu ddiaconiaid yr eglwys. Yna, byddwch yn derbyn gwahoddiad i arwain Oedfa. Yn dilyn hynny, bydd angen i'r eglwys, yn weddïgar, gymeradwyo'r unigolyn mewn cwrdd eglwys rheolaidd.

2. **Hysbysu:** Yn dilyn hyn, bydd ysgrifennydd yr eglwys, drwy lythyr, yn hysbysu ysgrifennydd y Cyfundeb. Yna, cyflwynir yr enw i gynhadledd y cwrdd chwarter perthnasol.

3. **Disgwyliadau er mwyn derbyn cymeradwyaeth Cyfundeb:** I dderbyn cymeradwyaeth Cyfundeb, disgwylir i'r ymgeisydd:

   a. **Bregethu** 'ar brawf' mewn tair eglwys o ddewis y Cyfundeb, a

   b. cael **cyfweliad** gan ddau aelod o'r cwrdd chwarter, gydag un ohonynt, pan fo'n bosib, yn weinidog ordeiniedig.

4. **Cyflwyno'r adroddiadau:** O dderbyn cymeradwyaeth cwrdd eglwys gan y tair eglwys (3a), a derbyn adroddiad cefnogol yn dilyn y cyfweliad (3b), cyflwynir adroddiad i gynhadledd y cwrdd chwarter. O dderbyn yr adroddiadau yn ffurfiol, cyflwynir yr ymgeisydd i ofal Adran Dysgu a Datblygu'r Undeb o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu.

Weithiau, os yw ymgeiswyr eisoes yn bregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig, byddant eisoes wedi dilyn y broses hon ar gyfer y cymhwysiad hwnnw. Fodd bynnag, gan fod yr alwad benodol hon i gyflawni gweinidogaeth ordeiniedig, disgwylir i ymgeiswyr ddilyn y broses gymeradwyo o'r newydd.

## Hyfforddiant

Bydd disgwyl i ymgeiswyr am y weinidogaeth gwblhau'r modiwlau hyn yn llawn (h.y. gan gynnwys unrhyw aseiniad cysylltiedig). Gyda system bancio modiwlau mewn lle, ni fydd rhaid ailwneud modiwl os yw'r modiwl hwnnw wedi'i gwblhau'n llawn eisoes. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cymryd dwy flynedd i'w gwblhau.

- Modiwl 1 – Addoli a Phregethu;
- Modiwl 2 – Cyflwyno'r Beibl: rhan (i) a (ii);
- Modiwl 3 – Bugeilio;
- Modiwl 4 – Y Sacramentau;
- Modiwl 5 – Yr Eglwys
- Modiwl 6 – Rhan o'r Byd
- Modiwl 7 – Amdanom Ni
- Modiwl 8 – Lleoliad

## Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant

Gyda chymeradwyaeth y Cyfundeb a Phanel Dysgu a Datblygu'r Undeb, cyflwynir yr ymgeiswyr llwyddiannus i'r Llywydd yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb lle y rhoddir tystysgrif, a bydd cofnod eu bod yn agored i alwad yn y Blwyddiadur.

Bydd y Panel Dysgu a Datblygu a'r Undeb yn hysbysu'r eglwysi drwy amryw gyfryngau megis *Y Tyst* o unrhyw unigolyn sy'n agored i alwad, ond ni all y Panel Dysgu a Datblygu na'r Undeb warantu y bydd unrhyw un sy'n agored i alwad yn derbyn galwad. Duw, trwy rym yr Ysbryd Glân, sy'n arwain yr eglwys(i) i estyn galwad.